Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 576 (Cy. 97)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfannau Gorllewin a Dwyrain Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Mai 2025* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mai 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1)**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfannau Gorllewin a Dwyrain Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw i rym ar 14 May 2025.

### Dehongli

**2.**Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun.

---

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dileu Cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Mai 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 64 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â chylchfan Gorllewin Hendy-gwyn ar Daf hyd at bwynt 74 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 34 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â chylchfan Dwyrain Hendy-gwyn ar Daf hyd at bwynt 45 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan honno gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.